

CAFFAEL SY'N GYFEILLGAR

# I FUSNESAU BACH A CHANOLIG

## pecyn cymorth GALLU GWNEUD 2

Ariannwyd gan

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

i2i - inform to involve
i2i - hysbysu i ymrwymo

CIH Cymru

integrate

united welsh

NEWPORT City HOMES

JobMatch
We'll find the right job for you

MerthyrValleys HOMES

Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council

ADNODD 3: Canllaw Cam wrth Gam

**PWYSIG: Dim ond cyngor cyffredinol a roir yn y tri adnodd i gyd sy'n ffurfio'r pecyn cymorth. Dylai darllenwyr geisio cyngor cyfreithiol cyn ei ddefnyddio.**

**Mae'r ddogfen hon yn seiliedig ar waith gwreiddiol a wnaethpwyd gan Richard Macfarlane (Richard@rmacfarlane.co.uk), gyda deunydd ac ymchwil cyfreithiol a ddarparwyd gan Mark Cook (mark.cook@anthonycollins.com) a Gayle Monk (gayle.monk@anthonycollins.com) o Anthony Collins Solicitors LLP. Gwnaethpwyd gwaith arolygu gan Community Consultants (www.communityconsultants.co.uk).**

## *Cynnwys*


**Adran 1 – Cyflwyniad** **t.4**

1.1 Y pecyn cymorth t.4
1.2 Sut i ddefnyddio Adnodd 3 t.4

**Adran 2 – Sut i Weithredu Proses Gaffael sy'n Gyfeillgar i BBaChau** **t.5**

2.1 Cyflwyniad t.5
2.2 Polisi Penodol t.7
2.3 Y Broses Gaffael t.7
2.3.1 Trafod â'r Farchnad t.7
2.3.2 Achos Busnes t.8
2.3.3 Dewis y Dull Caffael t.9
2.3.4 Dangosyddion Perfformiad Allweddol perthnasol t.10
2.3.5 Hysbysiad Contract OJEU t.11
2.3.6 Holiadur Cyn-gymhwyso t.12
2.3.7 Manyleb t.12
2.3.8 Y Broses Ddyfarnu t.13
2.3.9 Amodau Contract t.13

**Adran 3 – Cytundebau Datblygu** **t.14**

3.1 Problem Cyfamodau Cadarnhaol t.14

**Atodiadau**

**Atodiad 1** Manyleb sy'n gofyn am ddarparu gwybodaeth am gyfleoedd cyflenwi i BBaChau sy'n gweithio mewn ardal ddynodedig t.15

**Atodiad 2** Manyleb yn mynnu bod cyfleoedd tendro / prisio yn cael eu darparu i gwmnïau a dargedir a restrir ar GwerthwchiGymru t.16

**Atodiad 3** Manyleb yn mynnu bod cyfleoedd tendro / prisio yn cael eu darparu i 'gyflenwyr newydd' mewn ardal darged (1) t.17

**Atodiad 4** Manyleb yn mynnu bod cyfleoedd tendro / prisio yn cael eu darparu i 'gyflenwyr newydd' mewn ardal darged (2) t.18

**Atodiad 5** Testun sy'n mynnu bod Cyfamod yn cael ei gynnwys mewn Cytundeb Datblygu t.19

**Adendwm i Atodiad 5 – Cyfamod Budd Economaidd Enghreifftiol** t.20

## Adran 1: Cyflwyniad

### 1.1 Pecyn Cymorth Gallu Gwneud 2 – "Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig"

Mae'r pecyn cymorth yn dilyn ***Pecyn Cymorth Gallu Gwneud: Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu i landlordiaid cymdeithasol*** yn uniongyrchol, a dylid ei ddefnyddio mewn partneriaeth â'r ddogfen wreiddiol. Pan fydd cysylltiadau cryf, cyfeirir y darllenwyr yn uniongyrchol at y pecyn cymorth cyntaf, sydd wedi'i ddiweddaru i gynnwys unrhyw ddatblygiadau cyfreithiol a pholisi newydd yn y maes hwn. Mae'r Pecyn Cymorth hwn yn cynnwys 3 adnodd cysylltiedig:

**Adnodd 1 –** Mae'r canllaw cyflwyniadol hwn yn rhoi gwybodaeth allweddol am sut y gall sefydliadau sicrhau bod eu dulliau caffael yn gyfeillgar i fusnesau bach a chanolig (BBaChau), a sut y gellir gwneud y mwyaf o gyfleoedd i BBaChau.

**Adnodd 2 –** canllaw cynhwysfawr sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am faterion cyfreithiol a pholisi, ac yn rhoi gwybod i brynwyr beth i'w brynu a sut i'w brynu, a sut i gefnogi BBaChau. Mae'r adnodd hwn wedi'i gysylltu'n uniongyrchol â'r Pecyn Cymorth Gallu Gwneud cyntaf ac mae ar gael i'w lwytho i lawr ar wefannau **i2i** a GwerthwchiGymru mewn fformat PDF.

**Adnodd 3 –** cyfres o ddeunyddiau enghreifftiol a chyfarwyddyd ymarferol ar sut i brynu, i'w llwytho i lawr a'u haddasu o wefannau **i2i** a GwerthwchiGymru mewn fformat PDF.

## Sut i ddefnyddio Pecyn Cymorth Gallu Gwneud 2

Cynhyrchwyd y pecyn cymorth hwn ar y cyd gan **i2i** a **Gwerth Cymru** fel y cam nesaf i gynnig cyfarwyddyd ymarferol a chlir i brynwyr sector cyhoeddus a landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru ar wneud y mwyaf o gyfleoedd cadwyn gyflenwi drwy eu contractau. Ei nod yw helpu defnyddwyr drwy roi gwybodaeth a chyfarwyddyd am:

- gamau defnyddiol y gallant eu cymryd;
- gofynion cyfreithiol a pholisi a phrosesau priodol;
- ffynonellau cymorth ac enghreifftiau o arfer perthnasol; a
- chymalau enghreifftiol y gellir eu mabwysiadu i'w defnyddio fesul achos.

### 1.2 Sut i ddefnyddio adnodd 3

Mae **Adnodd 3** yn darparu amrywiaeth o ddeunyddiau enghreifftiol, ac ymagwedd gam wrth gam at gaffael sy'n gyfeillgar i BBaChau yn y sector cyhoeddus, o'r cyfnod mabwysiadu polisi i ddyfarnu a monitro contract sy'n cynnwys protocolau sy'n gyfeillgar i BBaChau.

Gellir ei ddefnyddio i atgyfnerthu ac atodi'r cyfarwyddyd polisi a chyfreithiol, yn ogystal â'r amryw ddewisiadau caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau a gyflwynwyd yn adnodd 2, drwy roi syniadau ac awgrymiadau ymarferol ar wneud achos busnes o blaid caffael nwyddau, cyflenwadau a gwasanaethau mewn ffordd sy'n rhoi'r cyfleoedd mwyaf posibl i BBaChau lleol, a gwneud hyn yn ymarferol. Am gefndir polisi a chyfreithiol llawn, gweler **Pecyn Cymorth Gallu Gwneud – Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu adnodd 2** drwy glicio ar y ddolen isod. http://www.whq.org.uk/docs/i2i/english/aboutDocE22.pdf

## 2.1 Cyflwyniad

Argymhellir ystyried cyfleoedd i BBaChau wrth benderfynu sut i brynu gwaith, nwyddau neu wasanaethau ac wedyn 'beth i'w brynu': gallai gofynion sy'n gyfeillgar i BBaChau fod yn rhan o 'elfennau craidd' yr hyn sy'n cael ei brynu a chael eu cynnwys yn yr hysbysiad contract. Fodd bynnag, os penderfynwch "sut i brynu" yn wahanol, efallai na fydd angen amodau contract craidd er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd i BBaChau. Yr awdurdod prynu sy'n penderfynu'r materion hyn ar sail ei amcanion, ei bwerau a'i bolisïau, a dylid eu cynnwys yn y dogfennau tendro, a thrwy gydol y broses gaffael. Ni ddylid drafftio'r gofynion mewn ffordd sy'n rhoi cynigyddion dan anfantais os nad ydynt yn lleol, er enghraifft drwy fynnu cyfleoedd i 'BBaChau lleol'.

Mae'n bwysig bod pob prynwr yn penderfynu a fydd yn cynnwys gweithgareddau sy'n gyfeillgar i BBaChau wrth gaffael, a sut, drwy bob un o'r camau canlynol:

- mabwysiadu **polisïau** clir;
- creu **cyllideb** ar gyfer y gweithgarwch, a allai gynnwys gweithgareddau 'datblygu cyflenwr', hwyluso a chynghori, **monitro** a monitro cynnydd;
- yr **achos busnes** o blaid y caffael;
- yr **hysbysiad contract OJEU**;
- yr **Holiadur Cyn-gymhwyso**;
- y Fanyleb a'r **Gwahoddiad i Dendro**/Cyd-drafod/Cyfranogi mewn Deialog;
- **Amodau'r Contract**;
- y **broses ddyfarnu** (os yw'r gweithgareddau cyfeillgar i BBaChau yn ofynion craidd); a
- **Gweithredu** contract (gan gynnwys monitro).

Os nad yw gweithgareddau sy'n gyfeillgar i BBaChau yn cael eu cynnwys ymhlith gofynion craidd contract, ni ellir eu hystyried wrth ddyfarnu contract. Fodd bynnag, gellir cael ymrwymiadau gwirfoddol yn ystod contract.

Mae'r rhan fwyaf o gyfraith achosion ar faterion cymdeithasol wrth gaffael yn berthnasol i'r graddau y gall mater nad yw'n fater craidd ddylanwadu ar ddyfarnu contract. Y cyngor gorau yw na ddylai ddylanwadu arno o gwbl. Mae cyfraith achosion yn cefnogi'r ymagwedd mai'r prynwr sy'n dewis gofynion craidd y contract, yn seiliedig ar ei bwerau a'i bolisïau, ar yr amod nad yw'r rhain yn cael eu drafftio mewn modd sy'n rhoi cynigyddion dan anfantais os nad ydynt yn lleol.

Mae'r testun isod yn darlunio nifer y dulliau caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau a ddefnyddir gan un landlord cymdeithasol. Mae rhai wedi cynnwys gofynion contract ac nid yw eraill ond o ganlyniad i ddeialog cyn caffael lle nodwyd gweithgareddau "sut i brynu".

## *Gwneud y Mwyaf o Gyfleoedd i BBaChau – Ymagwedd Cartrefi RCT.*

### 1. Caffael drwy 'lotiau'

Rhannwyd gwaith buddsoddi SATC yn chwe 'lot' – dwy ar gyfer gwaith mewnol, dwy ar gyfer gwres canolog ac insiwleiddio, a dwy ar gyfer gosod ffenestri a drysau newydd. Roedd hyn yn rhoi mwy o gyfle i gynigion gan gwmnïau sydd yn ardal teithio i waith y preswylwyr lleol. Dyfarnwyd tri chontract i gwmnïau cenedlaethol a thri i gwmnïau lleol. Mae'r cwmnïau cenedlaethol yn defnyddio isgontractwyr lleol yn rhan o'u cadwyn gyflenwi estynedig.

### 2. Holiadur Cyn-Gymhwyso symlach

Bu grŵp caffael staff a thenantiaid ar y cyd yn astudio pob rhan o'r holiadur cyn-gymhwyso i weld pa wybodaeth oedd yn hanfodol a sicrhau bod yr iaith yn glir. Roedd y ddogfen yn canolbwyntio mwyfwy ar brofiad a gallu'r cynigyddion, yn hytrach nag asesiadau 'ticio blwch'.

### 3. Sesiynau Gwybodaeth

Rhoddwyd sesiwn wybodaeth i bob contractwr â diddordeb i egluro gofynion yr holiadur cyn-gymhwyso. Cynhaliwyd ail sesiwn i'r 47 tendrwr er mwyn egluro'r fanyleb a gofynion y contract – gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi a sut y gellid cyflwyno cynigion contractwr consortiwm.

### 4. Cyfleoedd cadwyn gyflenwi

Cyn y broses gaffael, datblygodd Cartrefi RCT fanyleb (e.e. ar gyfer unedau cegin) a chytunodd ar bris a buddion hyfforddiant/cyfloegaeth â nifer o gyflenwyr lleol. Yn y fanyleb ar gyfer y prif gontract, cyfarwyddwyd cynigyddion ei bod yn rhaid iddynt ddefnyddio'r cyflenwadau hyn oni allent gael gwerth gwell gan gyflenwr arall. Drwy'r dull hwn, mae contract cyflenwi ffenestri a drysau wedi'i ddarparu i fenter gymdeithasol leol.

### 5. Dewis a Dyfarnu

Roedd yr holiadur cyn-gymhwyso'n mynnu bod cynigyddion posibl yn datgan sut y byddent yn `mynd ati i warchod yr amgylchedd wrth adfywio'r gymuned a'r ardaloedd o'i hamgylch yn gymdeithasol ac yn economaidd'. Ni sgoriwyd hyn yn rhan o ddewis y rhestr dendro, ond cafodd ei osod fel gwahaniaethydd rhag ofn bod y sgoriau'n agos.

Datblygwyd matrics sgorio ar gyfer asesu tendrau a dyfarnu contractau. Roedd hyn yn cynnwys sgoriau ar gyfer rheoli cadwyn gyflenwi (1.5%), cynaliadwyedd (1.5%) a chyflogaeth a hyfforddiant (10%).

Roedd y panel sgorio'n cynnwys tenantiaid a staff annhechnegol ac fe'i gwnaethpwyd ar gymhareb 50/50 cost i ansawdd. Fodd bynnag, roedd 10% o'r sgôr ansawdd yn seiliedig ar ymweliad â safle cyfredol a 10% ar gyfweliad â'r panel sgorio. Cynhaliwyd yr ymweliadau a'r cyfweliadau dim ond â chynigyddion a oedd o fewn 20% o'r sgôr a gyflawnwyd gan y cynigydd gorau ar gyfer pob 'lot' ar sail y gwerthusiad tendr.

### 6. Contractau Partneru

Mae Cartrefi RCT wedi defnyddio contractau partneru strategol 4 blynedd. Mae hyn yn osgoi costau prosesau tendro mynych ac yn darparu fframwaith ar gyfer cydweithio a fydd yn helpu i gyflawni'r amcanion cymdeithasol. Gwnaethpwyd y contractau'n weithredol drwy Grwpiau Craidd Strategol a Gweithredol, fel bod cydweithio cynhwysol yn cael ei arwain ar y lefelau uchaf ym mhob busnes partner.

Mae'r contractau hefyd yn mynnu bod yr un telerau ac amodau'n cael eu darparu i is-gontractwyr a chyflenwyr ag sy'n cael eu cynnwys yn y prif gontract. Mae cyflenwyr â chontractau cefn wrth gefn yn cael llais cyfartal yn y grwpiau craidd.

**Cyswllt.** Greg Montgomery. Cyfarwyddwr Buddsoddi ac Adfywio. Cartrefi RCT.
Ffôn 01443 494404 e-bost GregM@rcthomes.co.uk

## 2.2 Polisi Penodol

Dyma destun y gellid ei gynnwys mewn strategaeth gaffael neu gorfforaethol. Dylid nodi nad oes unrhyw gyfeirio penodol at yr ardal y tynnir y buddiolwyr ohoni – naill ai pobl neu BBaChau – ond mae'n ddilys i gorff cyhoeddus gael polisi o gynhyrchu buddion lleol o'i weithgareddau caffael ac eraill ar yr amod nad yw'r camau a gymer yn rhoi cwmnïau dan anfantais os nad ydynt yn lleol ac (ar gyfer cyflogaeth) nad ydynt yn torri deddfwriaeth cyfle cyfartal y DU.

### *Cyfleoedd Cadwyn Gyflenwi a Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu*

Mae [.....] (nodwch enw) wedi ymrwymo i gyflawni lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol i'w breswylwyr a gweithredu'r [Strategaeth Gymunedol] er mwyn sicrhau gwell ansawdd bywyd i bawb, heddiw ac i genedlaethau i ddod. I gyflawni hyn, mae'n ymrwymo i'r camau canlynol i'r graddau llawnaf posibl yn unol â'r fframweithiau cyfreithiol a pholisi perthnasol a'r cyllid sydd ar gael:

I. wrth ddewis y strategaeth i bob caffaeliad, ystyried pa gyfleoedd recriwtio a hyfforddi, cyfle cyfartal a BBaCh y gellid eu cael o bob contract gwaith;

II. cynnwys gofynion hyfforddiant, cyfle cyfartal a recriwtio, a chyfleoedd i BBaChau yn ei ofynion gwasanaeth, os yw'n ystyried bod hyn yn briodol;

III. cynnwys materion amgylcheddol a chymdeithasol eraill yn ei ofynion gwasanaeth, os yw'n ystyried bod hyn yn briodol; a

IV. defnyddio'r gofynion hyn ym mhob cam o'r broses dewis a dyfarnu contract, ac fel amodau contract.

Mae'r testun arfaethedig yn fwriadol o amhenodol o ran y buddion a geisir, oherwydd dylai'r strategaeth fod yn hyblyg; dylai fod yn gallu para amser hir heb fod angen ei diwygio wrth i flaenoriaethau newid.

## 2.3 Y Broses Gaffael

### 2.3.1 Trafod â'r Farchnad

I ddeall y cyfleoedd a'r buddion posibl a ddaw wrth ddefnyddio ymagwedd caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau – a beth ddylai'r ymagwedd hon fod – efallai bydd angen cael gwybodaeth am:

- BBaChau sy'n gweithredu yn ardal teithio i waith y safle(oedd) buddsoddi, gan gynnwys contractwyr, gweithgynhyrchwyr (e.e. cyflenwyr unedau cegin a ffenestri / drysau) a darparwyr gwasanaeth (e.e. proffesiynol, glanhau, amgylchedd ac ati);
- Rhwystrau tybiedig a gwirioneddol rhag cyfranogi yn y broses dendro.

Efallai bydd rhywfaint o'r wybodaeth hon ar gael eisoes yn y sefydliad (e.e. o 'restri tendro dethol' cynharach) neu drwy restri busnes lleol. Fodd bynnag, yn y cyfnod cynnar hwn, bydd yn werth chweil cysylltu â'r Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr ac Adeiladu Arbenigrwydd sydd â 'chlybiau' rhanbarthol i gontractwyr a allai fod yn gyfle i ymgynghori â'r farchnad.

### *Ymgynghoriadau â'r Farchnad – Merthyr Valley Homes*

Teimla MVH mai'r ffordd i gael y gwerth gorau am arian yw cynnwys contractwyr posibl a chyfathrebu â hwy. Mae contractwr sy'n deall yr hyn y mae ar gleient ei eisiau ac sy'n teimlo y gall weithio gydag ef yn fwy tebygol o gyflwyno cynnig cystadleuol, nag un nad yw'n deall y contract neu sy'n teimlo nad yw'n gallu gweithio gyda'r cleient.

Cyn tendro, cyfarfu swyddogion MVH â nifer o'r contractwyr mwy er mwyn cael barn am y cymalau RHT, ymrwymiad adfywio a phecynnu arfaethedig i'w cynnwys. Yn yr holl gyfarfodydd hyn, teimlai'r contractwyr y byddai'r cynigion yn rhoi Gwerth am Arian, na fyddent yn ychwanegu cost at y gwaith ac y byddent yn gontract y byddent yn dymuno darparu tendr ar ei gyfer.

Hyd yn oed cyn trosglwyddo'r stoc dai, cynhaliwyd digwyddiad i gontractwyr a BBaChau i roi gwybod i bob buddgyfranogwr pwy oedd MVH, sut roeddem yn bwriadu pecynnu'r gwaith, pa amserlenni oedd gennym. Roedd hyn yn gyfle iddynt roi sylwadau am becynnu ein contractau arfaethedig.

**Cyswllt:** Mike Williams. Cyfarwyddwr Rheoli Asedau, Merthyr Valley Homes.
Ffôn. 07595 088269 E-bost michael.williams@mvhomes.org.uk

## *2.3.2 Dewis y Dull Caffael*

***"Pe byddem yn dechrau eto, byddwn yn cynnwys ymrwymiad i fuddion cymunedol wrth ddewis ymgynghorwyr ac yn adeiladu'r tîm mewnol yn gynharach fel bod gennym fwy o allu i reoli contractau llai."***

**Cyswllt:** Mike Williams. Cyfarwyddwr Rheoli Asedau, Merthyr Valley Homes.
Ffôn. 07595 088269 E-bost michael.williams@mvhomes.org.uk

Er mwyn cyfiawnhau achos busnes yn llawn, dylai awdurdod sy'n prynu ddrafftio diffiniad manwl o'i ofynion prosiect i sicrhau y deellir yn glir y nodau busnes a'r hyn sydd ei angen gan gontractwyr i fodloni'r nodau hynny, ac y cytunwyd ar hynny. Cyn dechrau unrhyw broses gaffael, gall awdurdod sy'n prynu drafod â'r farchnad i asesu i ba raddau y gallai'r caffaeliad gyflenwi cyfleoedd i BBaChau a buddion cymdeithasol eraill a chynnwys hyn yn yr achos busnes ar gyfer y caffaeliad.

Wrth baratoi achos busnes, mae'n rhaid i awdurdod contractio ystyried llawer o faterion, gan gynnwys:

- cadarnhau bod ganddo'r pwerau a'r polisïau i gyflawni'r caffaeliad, gan gynnwys y materion cymdeithasol dymunol;
- sicrhau y gwneir darpariaethau ariannol i'r prosiect cyfan, gan gynnwys gofynion sy'n gyfeillgar i BBaChau a chanlyniadau cymdeithasol eraill;
- sicrhau y gellir meintoli a mesur ei holl amcanion BBaCh ac amcanion cymdeithasol eraill, a fydd yn helpu i werthuso i ba raddau maent yn rhoi gwerth am arian;
- nodi'r pwysiad i'w roi i ddarparu cyfleoedd BBaCh yn y broses gaffael os yw'n ofyniad craidd a pha strategaeth gaffael fydd yn cyflawni hyn orau; a
- nodi pa gyfleoedd BBaCh y gellid eu rhoi yn y gadwyn gyflenwi a sut i gyflawni hyn orau.

Pan fydd achos busnes wedi'i ddatblygu, dylai'r awdurdod sy'n prynu fod yn gallu gwerthfawrogi'r holl faterion dan sylw a'r hyn y bydd ei angen – mewn perthynas â chyfleoedd i BBaChau – yn y broses gaffael, wrth gyflenwi'r contract ac wrth fonitro rhan BBaChau.

Pan fydd awdurdod contractio wedi paratoi ei achos busnes ar gyfer caffael, mae'n rhaid ei fod yn gallu cadarnhau bod yr achos yn gadarn ac yn ddichonadwy. Ar gyfer gweithgareddau sy'n gyfeillgar i BBaChau, bydd hyn yn golygu sicrhau ei fod yn ddigon i gyflawni amcanion yr awdurdod contractio a'i fod yn fforddiadwy ac yn gyraeddadwy.

### *2.3.3 Dewis y Dull Caffael*

Ar sail yr Asesiad Achos Busnes, gall y prynwr benderfynu ar y dull caffael mwyaf priodol er mwyn cael y gwerth gorau posibl am arian neu'r gwerth gorau yn seiliedig ar ei amcanion ar gyfer y caffael.

Gall darparu cyfleoedd i BBaChau fod yn ffactor wrth ddewis 'sut i brynu' y contract arbennig hwnnw ac wedyn 'beth i'w brynu' – 'testun y contract'. Yn ôl pob tebyg, gwneir yr effaith fwyaf yn y cyfnod 'sut i brynu' lle bydd dewisiadau'n cynnwys:

1. *Defnyddio Fframweithiau neu gontractau/tendrau sy'n werth llai i leihau effaith y cymal dibyniaeth ariannol gymaint â phosibl.*

2. *Sicrhau bod yr Holiadur Cyn-gymhwyso'n gofyn am gymwysterau posibl a pherthnasol. (h.y. pe byddech yn comisiynu paentiad nid yw System Reoli Sicrhau Ansawdd lawn yn gymhwyster defnyddiol)*
*(Mae Cronfa Ddata Gwybodaeth Gymhwyso Cyflenwyr (SQuID) wedi'i datblygu a ddarparodd gyfarwyddyd ar ba gwestiynau y dylid eu gofyn gan ddibynnu ar y risg sy'n gysylltiedig â'r caffael. Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan GwerthwchiGymru neu cysylltwch â Karen.Coombs@wales.gsi.gov.uk.)*

3. *Sicrhau bod yr yswiriant y gofynnir amdano mewn perthynas â maint y contract: gall gofynion yswiriant gormodol negyddu neu leihau unrhyw elw ac felly atal cyflenwyr da posibl rhag cynnig.*

4. *Sgorio cwmnïau sy'n arddangos profiad perthnasol y tu hwnt i weithio i AALl neu'r sector cyhoeddus yn yr un modd â sgorio'r rheini sydd wedi gweithio yn y maes hwn. Ansawdd y gwaith sy'n cyfrif, nid i bwy y'i gwnaethpwyd.*

5. *Ar gyfer contractau o werth llai, efallai hysbysebu'n lleol yn unig e.e. y wasg leol, grwpiau busnes, neu ddigwyddiad rhwydwaith y Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr. Mae cyhoeddi ar GwerthwchiGymru yn agor y gystadleuaeth ledled y wlad.*

**Cyswllt:**Phil Spooner, Hyrwyddwr Cyflenwyr, Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr yn Ne-ddwyrain Cymru. Ffôn. 01633 273502 e-bost pspooner@venturewales.com

**Defnyddio fframweithiau i wneud y mwyaf o gyfleoedd i BBaChau – Cyngor Sir Powys**

I gyflawni ei ymrwymiad polisi i gefnogi'r economi leol, cytunodd y Cyngor i gaffael ei £4.6m o waith SATC drwy Gytundeb Fframwaith wedi'i rannu'n 8 categori: gosod ceginau newydd, gosod ystafelloedd ymolchi newydd, ailweirio ac addurno mewnol ar gyfer Gogledd ac wedyn De'r Sir. Bydd contractau'n cael eu cyhoeddi yn yr 8 categori hwn dros y 4 blynedd nesaf, a'r gwariant blynyddol i bob contract yn nodweddiadol o dan £400,000.

Drwy'r broses hon, dyfarnwyd 3 chontract i gyflenwyr mwy nad oeddent yn lleol, a dyfarnwyd 5 i BBaChau lleol; yma, mae 'lleol' yn golygu Powys neu awdurdod cyfagos. Ystyriwyd bod angen diffinio 'lleol' yn y modd bras hwn er mwyn cael y gystadleuaeth ofynnol.

Mae'r Cyngor bellach wedi caffael contractwyr fframwaith ar gyfer mân waith adeiladu a chynnal a chadw eiddo a phrosiectau llai sy'n werth llai na £25,000. Mae gan y fframwaith bedair Lot, dwy ar gyfer `mân waith' (Gogledd a De) a dwy i Brosiectau Llai. I ddarparu dewisiadau lleol priodol i reolwyr gwasanaeth, penodwyd 61 o gontractwyr i'r fframweithiau, ac mae 59 ohonynt yn 'lleol' a'r rhan fwyaf ohonynt yn BBaChau.

Ym mhob proses gaffael, gweithiodd y Cyngor yn agos gyda'r Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr Lleol, Menter a Busnes, a oedd yn gallu cynghori a chynorthwyo cwmnïau lleol. Hysbysebodd y Cyngor y cyfleoedd contract yn y Wasg leol a gwefan Cynulliad Cymru (gwerthwchigymru), symleiddiodd ffurflen yr Holiadur Cyn-gymhwyso a chyhoeddodd gyfarwyddyd ar sut i lenwi'r holiadur hwn.

**Cyswllt:** Claire Woodhead. Cyngor Sir Powys.
Ffôn 01597 826469 E-bost Claire.woodhead@powys.gov.uk

### *2.3.4 Dangosyddion Perfformiad Allweddol perthnasol*

Un o elfennau hanfodol caffael cyhoeddus yw y gellir mesur gofynion y contract, fel bod y cleient yn gwybod a yw'r gofynion wedi'u bodloni. Mae rheoli contract yn hanfodol i sicrhau y bodlonir gofynion penodol y contract, ac mae hyn mor berthnasol i fuddion cymunedol a gofynion cadwyn gyflenwi ag y mae i unrhyw beth arall.

Os bydd camau 'beth i'w brynu' yn cynnwys, er enghraifft, 'buddion i'r economi leol', mae mwy o angen defnyddio dangosyddion perfformiad allweddol sy'n mesur yr effaith economaidd. Gallai'r rhain geisio mesur:

- gwerth contractau a ddyfernir i 'fusnesau lleol' – a fydd yn ychwanegu at y CMC lleol;
- nifer y preswylwyr lleol sydd wedi'u cyflogi a'r cyflog cyfartalog (neu wirioneddol) a dalir iddynt.

Mewn gwirionedd, procsïaid yw'r 'mesurau' uchod am asesiad economaidd cywir gan ddefnyddio ymagwedd 'lluosydd lleol' (LM3). Byddai'r asesiad lluosydd lleol llawn yn casglu gwybodaeth am sut y defnyddiodd cyflenwyr lleol incwm y contract i brynu oddi wrth gyflenwyr lleol eraill a thalu cyflogau i breswylwyr lleol. Mewn ymagwedd LM3, gwneir hyn am dri deliad:

- Haen 1 – taliadau i'r prif gontractwyr a'u cyflogeion a gweithwyr hunangyflogedig;
- Haen 2 - taliadau i'r isgontractwyr a'r cyflenwyr a'u cyflogeion a gweithwyr hunangyflogedig;
- Haen 3 – taliadau i'r cyflenwyr i gwmnïau Haen 2, a chyflogeion y cyflenwyr a gweithwyr hunangyflogedig.

Ystyrir hefyd batrymau gwariant y cyflogeion ar bob lefel: h.y. faint o'u hincwm sy'n cael ei wario yn yr economi leol.

Mae'n debygol y bydd angen i sefydliad arbenigol gynnal y gwerthusiad mwy soffistigedig hwn yn hytrach na'r contractwyr neu'r cleient. Fodd bynnag, mae unrhyw ymchwil fel hwn yn mynnu cydweithrediad y contractwyr a'r gadwyn gyflenwi, a dylai fod yn rhan o'r amodau contract os yw'n bosibl. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r prynwr ystyried goblygiadau cost yr ymagwedd hon yn ystod y cyfnod cyn y contract.

### LM3 yn dangos effaith y Lluosydd Lleol am dri chylch

Yr Egwyddor

Dychmygwch fod Ysgol Acme yn ailwampio ei safle ac yn defnyddio LM3 i asesu effaith ei phrosiect cyfalaf diweddaraf er mwyn iddi wneud gwelliannau:

| | |
|---|---|
| Cylch 1: | £2,000,000 (incwm/cyllideb wreiddiol) |
| Cylch 2: | £ 800,000 (y swm sy'n cael ei wario ar gyflenwyr a staff lleol) |
| Cylch 3: | £ 300,000 (y swm sy'n cael ei wario'n lleol gan gyflenwyr a staff) |
| Cyfanswm: | £3,100,000 (Cylchoedd 1-3) |
| LM3: | 1.55 (Cyfanswm wedi'i rannu â Chylch 1) |

Golyga hyn fod y prosiect cyfalaf wedi cynhyrchu £0.55 ychwanegol i'r economi leol am bob £1 a wariodd Ysgol Acme.

Enghraifft

Bu Cyngor Dosbarth Gogledd Norfolk yn cymharu dau gontract adeiladu. Nodir y ffigurau LM3 isod. Sylwer bod y contract llai mewn gwirionedd wedi cynhyrchu mwy o arian i'r economi leol!

Dengys yr enghraifft hon bwysigrwydd cysylltedau economaidd. Nid ymhle y gwariwch eich arian yn unig sy'n bwysig, ond beth sy'n digwydd i'ch arian ar ôl hynny. Cynhyrchodd Contract 1 £1.15 ychwanegol i'r economi leol am bob £1 o fuddsoddiad gwreiddiol. Ar gyfer contract 2, dim ond £0.23 oedd hyn!

**Cyngor Dosbarth Gogledd Norfolk**

| | Contract 1 | Contract 2 |
|---|---|---|
| **Cylch** | **£72,000** | **£12,000** |
| Cylch | £57,000 | £20,000 |
| Cylch | £24,980 | £ 6,760 |
| **Cyfanswm** | **£154,580** | **£147,160** |
| **LM3** | 2.15 | 1.23 |

**Cyswllt:** Adam Wilkinson +44 (0) 7811160822 neu adam@adamwilkinson.com, neu Elizabeth Cox yn nef Ffôn. 020 7820 6381 neu Elizabeth.Cox@.neweconomics.org.

Gallwch gael mwy o wybodaeth ar: http://www.lm3supplychain.com neu http://www.pluggingtheleaks.org/resources/plm_lm3.htm

## *2.3.5 Hysbysiad Contract OJEU*

Mae'n rhaid nodi defnyddio ystyriaethau cymdeithasol mewn amodau contract mewn unrhyw Hysbysiad Contract OJEU. Awgrymir y geiriad enghreifftiol canlynol, yn nodweddiadol o dan yr adran yn Hysbysiad Contract OJEU dan y pennawd "Gwybodaeth Ychwanegol".

> ***"O dan y [caffael / prosiect] hwn mae gofyn i'r [contractwr / datblygwr] gyfranogi'n weithgar mewn adfywio economaidd a chymdeithasol yn ardal man cyflenwi'r [caffael / prosiect] ac o'i hamgylch. Yn unol â hynny, gallai amodau perfformiad contract gysylltu'n arbennig ag ystyriaethau economaidd, cymdeithasol ac economaidd."***

### *2.3.6 Holiadur Cyn-gymhwyso*

Defnyddiwch ymagwedd wedi'i symleiddio a'i safoni at gyfnod yr Holiadur Cyn-gymhwyso yn y broses gaffael. Dyma'r ymagwedd mae Gwerth Cymru'n ei hyrwyddo a'i hargymell drwy'r gwaith a wneir yn rhan o SQuID. Mae'r adnodd hwn ar-lein ac yn barod i'w ddefnyddio gan brynwyr a chyflenwyr a gallwch gael at y ddolen hon drwy gysylltu â: https://www.prynwchigymru.co.uk/PRP/

Fodd bynnag, dyma enghraifft o destun enghreifftiol y gellir ei ddefnyddio yn rhan o broses yr Holiadur Cyn-gymhwyso. Mae'n rhaid cofio y dylai'r adran hon fod yn hyblyg ac yn briodol i'r contract sy'n cael ei osod.

**Cyfleoedd Cadwyn Gyflenwi a Recriwtio a Hyfforddiant wedi'u Targedu**

1 **A yw eich cwmni'n fodlon gweithio gyda'r awdurdod contractio ar unrhyw un neu'r cyfan o'r isod? Eglurwch sut y byddech yn gwneud hyn.**

- Nodi 'cyflenwyr ychwanegol sy'n BBaChau' nad ydych wedi'u defnyddio o'r blaen ac sy'n gweithio yn yr ardaloedd lle rydych chi'n gweithio;
- Defnyddio GwerthwchiGymru a rhestri cadwyn gyflenwi eraill a gweithio gyda Rhaglenni Datblygu Cyflenwyr;
- Meithrin a chefnogi'r cyflenwyr ychwanegol hyn sy'n BBaChau fel y gallant fodloni eich anghenion yn well;
- Gweithredu arfer gorau mewn telerau talu a thelerau eraill mewn perthynas â'ch cadwyn gyflenwi BBaCh.

2 **"Sut y byddech yn bwriadu cymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithgareddau hyn, neu a oes gennych unrhyw enghreifftiau o gymryd rhan ynddynt eisoes?"**

### *2.3.7 Manyleb*

Mae'r fanyleb yn nodi'r gofynion manwl ar gyfer y contract, gan gynnwys y buddion cymdeithasol / cymunedol (sy'n ddelfrydol yn seiliedig ar yr achos busnes). Mae'r dewisiadau yma'n cynnwys:

- Rheoli cadwyn gyflenwi;
- Gwaith a datblygu'r gadwyn gyflenwi;
- Contractau llafur yn unig a chyflenwi yn unig.

Mae enghreifftiau o destun posibl i'w gynnwys yn y fanyleb wedi'u cynnwys yn Atodiadau 1 i 4.

Er bydd y manylion yn amrywio o'r naill gontract i'r llall, mae nifer o elfennau cyffredin sy'n cael eu cynnwys mewn manylebau cyfeillgar i BBaChau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- rhyw gyfeiriad at y sail polisi neu gyfreithiol i'r gofynion;
- dangosyddion perfformiad mesuradwy naill ai yn y fanyleb neu mewn atodiad, mewn perthynas â'r:
  - canlyniadau gofynnol, a/neu
  - broses y mae'n rhaid ei dilyn i nodi 'BBaChau targed';
  - gofynion monitro ac adolygu perfformiad; ac
  - ymwadiad i amddiffyn y cleient rhag 'ceisiadau' mewn perthynas ag unrhyw ymyriadau cyfeillgar i BBaChau a wna.

Yn yr un modd â phob elfen arall o'r fanyleb, bydd angen gofal wrth bennu pa ofynion cyfeillgar i BBaChau sy'n briodol ac yn gyrraeddadwy. Mae angen drafftio'r rhain yn gymalau sy'n ddiamwys ac yn darparu 'maes cystadlu gwastad' yn y broses dendro i gontractwyr. Un o elfennau allweddol cyflawni'r 'maes cystadlu gwastad' hwn efallai fydd defnyddio'r Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr ac Adeiladu Cymru, sy'n gallu cael at BBaChau lleol a gweithio gyda hwy. Gall GwerthwchiGymru ddarparu cysylltiadau cychwynnol i gontractwyr sy'n cyflenwi contractau sector cyhoeddus a chontractau tai cymdeithasol eraill.

### *2.3.8 Y Broses Ddyfarnu*

Mae'n arfer da gofyn i gynigyddion gyflwyno gyda'u tendr (neu ymateb i wahoddiad i gyd-drafod / cyfranogi mewn deialog) ddatganiad dull sy'n nodi sut y byddant yn cyflawni gweithgareddau cyfeillgar i BBaChau sy'n ffurfio rhan o'r fanyleb neu'r amodau contract. Os yw'r gweithgareddau cyfeillgar i BBaChau yn elfennau caffael craidd, gellir sgorio'r datganiad dull hwn, a chynnwys y sgôr hon wrth asesu ansawdd y tendr. Os nad yw'r gofynion BBaCh yn elfennau craidd, dylid diystyru'r datganiad dull yn y broses ddyfarnu ond gellir ei ddefnyddio mewn cyd-drafodaethau pan fydd y contract wedi'i ddyfarnu, a phan ddisgwylir gweithgareddau cadwyn gyflenwi.

Os yw'r gofynion BBaCh am gael eu sgorio, dylid defnyddio fframwaith sgorio i sicrhau bod datganiadau dull yn cael eu gwerthuso'n gadarn ac yn deg. Mae'n rhaid i'r holl feini prawf a'r is-feini prawf a'r pwysiadau dyfarnu contract gael eu cyhoeddi yn yr hysbysiad contract gwreiddiol.

Mae fframwaith sgorio:

- yn rhestru'r pynciau lle disgwyliwyd ymateb gan y cynigydd, gyda phob pwnc yn cael pwysiad (nifer o bwyntiau); ac
- yn rhestru'r mathau o gamau y disgwyliwyd eu cynnig o dan bob pwnc, gyda phob cam yn cael pwysiad wedyn – dadansoddiad o'r pwyntiau sydd ar gael am y 'pwnc' hwnnw.

Dylid cyhoeddi datganiadau dull pro fforma i sicrhau bod pob cynigydd yn ateb yr un cwestiynau ac yn darparu'r un wybodaeth graidd. Mae hyn yn helpu i sicrhau y gosodir maes cystadlu gwastad rhwng cynigyddion ac mae'n atgyfnerthu'r neges nad elfennau gwirfoddol nac 'ymdrechion gorau' y contract mo'r rhain, ond gofynion cytundebol.

### *2.3.9 Amodau Contract*

Gellir datblygu amodau contract penodol fesul prosiect. Mewn prosesau caffael sy'n caniatáu lle i gyd-drafod (er enghraifft ar sail cynllun cyflenwi gwasanaeth neu ddatganiad dull) gellir ymgorffori cymalau penodol mewn dogfennaeth contract i glymu'r contractwr/datblygwr wrth dargedau a chanlyniadau penodol.

Gellir defnyddio'r cymalau enghreifftiol yn yr atodiadau fel man cychwyn i bob caffaeliad, gan gynnwys y rheini sy'n cael sylw gan reolau'r UE.

## *Adran 3: Cytundebau Datblygu*

Mae cyrff cyhoeddus (ac LCCiaid o bosib) yn mynd i gytundebau â thrydydd parti (er enghraifft, cwmnïau datblygu sector preifat) i ddatblygu safle neu gymdogaeth. Byddai enghreifftiau nodweddiadol yn cynnwys datblygu safleoedd masnachol neu ddefnydd cymysg ar ôl cliriad sector cyhoeddus, dadlygru, adennill a 'chydosod tir', neu werthu safleoedd tai cymdeithasol i'w hailddatblygu drwy gymysgedd o dai cymdeithasol a fforddiadwy. Gan fod y datblygiadau hyn yn aml yn cynnwys gwerthu eiddo a darparu cyfleusterau newydd (e.e. ffyrdd, tai cymdeithasol, cyfleusterau cymunedol) i'r sector cyhoeddus mae'n gyffredin cael cytundeb datblygu i osod drwy 'broses gaffael'. Mae maint y datblygu'n golygu bod y caffaeliadau hyn yn destun Cyfarwyddeb Gaffael y CE.

Mewn Cytundeb Datblygu, bydd y contractau adeiladu'n cael eu cyhoeddi gan y datblygwr newydd, nid y corff cyhoeddus. Mewn rhai achosion, bydd y Datblygwr sy'n ymwneud â'r contract cychwynnol yn gwerthu ei fudd yn y safle i ddatblygwyr eraill, neu gellir ei ailstrwythuro neu ei gymryd drosodd. Os bydd y corff cyhoeddus sy'n berchen ar y tir neu'n ymgymryd â'r buddsoddiad cychwynnol yn dymuno sicrhau bod y datblygwyr yn cyflenwi ei flaenoriaethau cymdeithasol (er enghraifft caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau), gall wneud hynny drwy gyfamod sydd ymhlith gofynion y cytundeb datblygu. Fodd bynnag, mae'n rhaid i hwn fod yn wydn oherwydd, yn aml, ni ellir tybio pwy fydd yn datblygu na phwy fydd yn meddiannu'r safle datblygu, na phryd yr aiff y datblygiad yn ei flaen

Mae'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaethau o dan gytundeb datblygu yn rhai tymor byr, o ystyried popeth, a byddant yn cael eu bodloni gan y tirfeddiannwr a'r datblygwr gwreiddiol. Fodd bynnag, oni bai bod y cytundeb yn amodi fel arall, dim ond rhwng y ddau barti contractio gwreiddiol fydd y rhwymedigaethau yn y cytundeb gwreiddiol – gan gynnwys unrhyw gyfamod i gyflenwi'r buddion cymunedol a BBaCh – yn orfodadwy. [1]

### *3.1 Problem "Cyfamodau Cadarnhaol"*

Os bydd corff cyhoeddus yn gwerthu tir a bod arno eisiau cynnwys cyfamod 'budd i'r gymuned', mae'n wynebu problem os yw'r cyfamodau hyn yn gadarnhaol (fel rheol, cyfamod cadarnhaol yw cyfamod sy'n gofyn i rywun wario ychydig o arian), oherwydd yn gyffredinol ni fydd baich cyfamod cadarnhaol yn rhwymo unrhyw un sy'n prynu'r tir hwnnw wedyn.

Yn y cyd-destun hwn, mae tair ymagwedd a argymhellir:

- mae'r tirfeddiannwr yn mynd i gontract amodol i werthu'r tir, ond yn cadw ei fudd rhydd-ddaliadol nes cyflawni'r gofynion caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau;
- mae'r contract i werthu'r tir/adeiladau yn cynnwys gofyniad bod y prynwr cyntaf yn gwneud cais ar y cyd (gyda'r gwerthwr) i'r Gofrestrfa Tir i osod amod na cheir cofrestru unrhyw drefniad heb fod y gwerthwr wedi tystio ei fod wedi cael Gweithred Cyfamod wedi'i gweithredu mewn perthynas â'r caffael cyfeillgar i BBaChau o'i blaid – byddai hyn yn sicrhau bod y tirfeddiannwr newydd wedi ymrwymo i'r caffaeliad cyfeillgar i BBaChau;
- mae'r contract i werthu'r tir/adeiladau yn cynnwys gofyniad bod y datblygwr cyntaf yn darparu 'blaendal' ariannol ar lofnodi'r cytundeb datblygu (neu fesul dipyn), y bydd yn ei gael yn ôl â llog wrth gyflenwi'r prosesau caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau.

Nid oes unrhyw enghreifftiau hysbys o gynnwys caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau mewn Cytundeb Datblygu. Mae Atodiad 5 yn cynnig enghraifft o gytundeb datblygu y gellir ei ddefnyddio i sicrhau gofynion caffael sy'n gyfeillgar i BBaChau.

1 Mae'r hen reol gyffredinol mai dim ond parti i gontract sy'n gallu erlyn arno ('Preifatrwydd Contract') wedi'i gwrthdroi bellach gan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Person) 1999, ond yn ymarferol mae'r rhan fwyaf o gontractau'n ailosod yr hen reol. Mae'n dilyn na ellir gosod rhwymedigaethau ar estroniaid i gontract os nad ydynt yn barti iddynt.

### Atodiad 1 Manyleb sy'n gofyn am ddarparu gwybodaeth am gyfleoedd cyflenwi i BBaChau sy'n gweithio mewn ardal ddynodedig

Yn unol â'i ymrwymiad i gefnogi BBaChau a'r economi leol fel y nodir yn y Strategaeth [...] mae'n amod sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r contract fod y gweithgareddau canlynol yn cael eu cynnal i wneud y mwyaf o gyfleoedd cadwyn gyflenwi i BBaChau a dargedir.

...1 Gweithio gyda'r Rhaglen Datblygu Cyflenwyr [cyswllt...] neu sefydliad arall addas y cytunwyd arno gan y cleient i ddatblygu rhaglen o weithgareddau a chymorth er mwyn darparu cymaint o wybodaeth â phosibl am gyfleoedd is-gontractio a chyflenwi i BBaChau â chod post [... i ...] ac i sicrhau bod cynigion mor niferus a chystadleuol â phosibl mewn ymateb i'r cyfleoedd hyn gan y BBaChau hyn.

...2 Ymhen pedair wythnos o ddechrau'r contract, adrodd am y camau a gymerwyd i roi gwybodaeth a chyfleoedd contractio i BBaChau â chod post [... i ...], gan gynnwys rhestr yn nodi gwybodaeth ffôn a/neu e-bost BBaChau o'r ardal darged a fu'n cymryd rhan yn y gweithgareddau yn ...1.

...3 Wythnos cyn pob [cyfarfod adolygu contract misol] darparu i'r cleient adroddiad sy'n nodi niferoedd y BBaChau â chod post [... i ...] a wahoddwyd i dendro / rhoi pris am waith cyflenwi ac isgontractio, nifer y rhain y dyfarnwyd contract iddynt a gwerth cyfan y contractau hyn. Dylid adrodd am hyn ar gyfer y cyfnod diweddaraf a'r contract hyd yma.

...4 Nid yw'r gofyniad hwn yn cynnwys nac yn awgrymu unrhyw addewid ar ran y Cleient i ddarparu cyflogeion, isgontractwyr na chyflenwyr addas. Ni fydd unrhyw gamau a gymer y Cleient i drefnu perthynas rhwng y Contractwr ac unigolion, busnesau neu asiantaethau lleol yn awgrymu ei fod yn ystyried bod yr unigolyn, y busnes neu'r asiantaeth yn addas i'r Contractwr ei gyflogi.

*I sicrhau maes cystadlu gwastad i gynigyddion o unrhyw le yn Ewrop mae'n bwysig rhoi gwybod gyda'r tendr neu mewn sesiwn wybodaeth gysylltiedig am y Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr a darparwyr gwasanaeth lleol a'r cyswllt ar gyfer unrhyw gofrestr BBaChau sydd ar gael yn yr ardal darged.*

**Atodiad 2 Manyleb yn mynnu bod cyfleoedd tendro / prisio yn cael eu darparu i gwmnïau a dargedir a restrir ar GwerthwchiGymru**

...Prynu sy'n gyfeillgar i BBaChau

Yn unol â'i ymrwymiad i gefnogi BBaChau a'r economi leol fel y nodir yn y Strategaeth [...] mae'n amod cysylltiedig â chyflenwi'r contract fod y gweithgareddau canlynol yn cael eu gwneud i wneud y mwyaf o gyfleoedd cadwyn gyflenwi i BBaChau a dargedir.

...1 I bob is-gontract neu gontract cyflenwi, sicrhau bod o leiaf [2] o 'gwmnïau targed' â chod post [... i ...] sydd ar restr o BBaChau a gedwir gan [GwerthwchiGymru] yn cael eu gwahodd i gyflwyno pris neu dendr (os oes cwmnïau addas ar y rhestr) a bod y cwmnïau hyn yn cael cyfle cyfartal i gystadlu am y contract.

...2 Wythnos cyn pob [cyfarfod adolygu contract misol], darparu rhestr o'r 'cwmnïau targed' a nodwyd o dan ...1 uchod yn y cyfnod a'r contract hyd yma, gan ddangos a benodwyd y 'cwmni targed' ai peidio ac, os na chafodd ei benodi, y ganran mae ei dendr / pris yn ei chynrychioli o'r pris a gyflwynwyd gan yr is-gontractwr neu'r cyflenwr a benodwyd.

...3 Nid yw'r gofyniad hwn yn cynnwys nac yn awgrymu unrhyw addewid ar ran y Cleient i ddarparu cyflogeion, isgontractwyr neu gyflenwyr addas. Nid yw unrhyw gamau a gymer y Cleient i drefnu perthynas rhwng y Contractwr ac unigolion, busnesau neu asiantaethau lleol yn awgrymu ei fod yn ystyried bod yr unigolyn, y busnes neu'r asiantaeth yn addas i'r Contractwr ei gyflogi.

*I sicrhau maes cystadlu gwastad i gynigyddion o unrhyw le yn Ewrop mae'n bwysig rhoi gwybod gyda'r tendr neu mewn sesiwn wybodaeth gysylltiedig sut y gall cynigydd gael at GwerthwchiGymru a darparwyr Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr lleol a'r cyswllt ar gyfer unrhyw gofrestr BBaChau sydd ar gael yn yr ardal darged.*

### Atodiad 3 Manyleb yn mynnu bod cyfleoedd tendro / prisio yn cael eu darparu i 'gyflenwyr newydd' mewn ardal darged

...Prynu sy'n gyfeillgar i BBaChau

Yn unol â'i ymrwymiad i gefnogi BBaChau a'r economi leol fel y nodir yn y Strategaeth [...] mae'n amod cysylltiedig â chyflenwi'r contract fod y gweithgareddau canlynol yn cael eu gwneud i wneud y mwyaf o gyfleoedd cadwyn gyflenwi i BBaChau a dargedir.

...1 Darparu datganiad dull sy'n nodi'r camau a gymerir i gaffael bod [10%] o werth y contract yn cael ei gyflenwi gan 'gyflenwyr newydd' mewn ardaloedd â chod post [... i ...], lle mae 'cyflenwyr newydd' yn golygu:

- 'mentrau â llai nag 20 o staff nad ydynt yn rhan o gwmni neu grŵp mwy' ac nad ydynt wedi'u cyflogi o'r blaen gan gontractwr sy'n cyflogi isgontractwyr a chyflenwyr; neu
- fentrau cymdeithasol neu gwmnïau cymdeithasol nad ydynt wedi'u cyflogi o'r blaen gan gontractwr sy'n cyflogi isgontractwyr a chyflenwyr.

Mae'n rhaid i'r datganiad dull roi gwybod sut y caiff y 'cyflenwyr newydd' eu meithrin a'u cefnogi drwy'r gwaith ar faterion fel iechyd a diogelwch, prisio, rheoli safle, cynllunio a rheoli ariannol, dogfennaeth ac achredu.

...2 Wythnos cyn pob [cyfarfod adolygu contract misol], darparu rhestr o'r enwau a'r manylion cyswllt ar gyfer 'cyflenwyr newydd' a nodir o dan ...1 uchod yn y cyfnod a'r contract hyd yma, a gwerth y gwaith a ddyfarnwyd i bob un [neu'r gwerth cyfanredol a ddyfarnwyd].

...3 Nid yw'r gofyniad hwn yn cynnwys nac yn awgrymu unrhyw addewid ar ran y Cleient i ddarparu cyflogeion, isgontractwyr neu gyflenwyr addas. Nid yw unrhyw gamau a gymer y Cleient i drefnu perthynas rhwng y Contractwr ac unigolion, busnesau neu asiantaethau lleol yn awgrymu ei fod yn ystyried bod yr unigolyn, y busnes neu'r asiantaeth yn addas i'r Contractwr ei gyflogi.

*I sicrhau maes cystadlu gwastad i gynigyddion o unrhyw le yn Ewrop mae'n bwysig rhoi gwybod gyda'r tendr neu mewn sesiwn wybodaeth gysylltiedig sut y gall cynigydd gael at BBaChau o'r ardaloedd targed e.e. drwy GwerthwchiGymru, darparwyr y Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr lleol, ac unrhyw gofrestr BBaChau sydd ar gael yn yr ardal darged.*

**Atodiad 4 Manyleb yn mynnu bod cyfleoedd tendro / prisio yn cael eu darparu i 'gyflenwyr newydd' mewn ardal darged**

...1 Effaith Economaidd

...1.1 Yn unol â'i ymrwymiad i gefnogi'r economi yn 'ardal darged' y cyflenwi a'r cylch, a ddiffinnir fel ardaloedd cod post sy'n dechrau [... i ...], a nodir yn y Strategaeth [...], darparwch Ddatganiad Dull Effaith Economaidd gyda phob tendr dilys yn rhoi gwybod am y canlynol:

- camau a gymerir i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd cadwyn gyflenwi a ddarperir i BBaChau sy'n gweithio yn yr ardal darged heblaw cwmni sy'n rhan o'r un grŵp o gwmnïau â'r cwmni tendro;
- targed uchelgeisiol ar gyfer y ganran o werth y contract cyfan a gaiff ei chyflenwi gan BBaChau yn yr ardal darged nad ydynt yn rhan o'r un grŵp â'r cwmni tendro;
- targed uchelgeisiol ar gyfer nifer yr wythnosau person o gyflogaeth ar y safle ar gyfer pobl a gyflogir yn uniongyrchol (h.y. pobl gyflogedig a hunangyflogedig nad ydynt yn cael eu darparu drwy'r gadwyn gyflenwi) ar y safle a chostau cyflog cyfartalog y bobl hyn yr wythnos.

...2 Adroddiadau Monitro

...2.1 Wythnos cyn pob [cyfarfod adolygu contract misol], darparu i'r cleient adroddiad sy'n nodi ar gyfer y cyfnod diweddaraf a'r contract hyd yma:

...2.1.1 niferoedd y BBaChau â chod post [... i ...] a wahoddwyd i dendro / rhoi pris am waith cyflenwi ac is-gontractio, nifer y rhain y dyfarnwyd contract iddynt a gwerth cyfan y contractau hyn;

...2.1.2 cyfrifiad o'r gwerth a ychwanegwyd at yr ardal lle cyflenwir y contract yn sgil defnyddio cadwyni cyflenwi ac yn sgil y prif gontractwr yn cyflogi pobl sy'n byw'n bennaf yn yr ardal hon.

2.2 pan fydd y cleient yn gofyn, hwyluso gwaith ymchwil i ganfod yr effaith lluosydd lleol (LM3) a / neu enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad yn gysylltiedig â buddsoddiad y cleient, gan gynnwys hwyluso ymchwil gyda chyflogeion a'r gadwyn gyflenwi i'r contract.

...3 Nid yw'r gofyniad hwn yn cynnwys nac yn awgrymu unrhyw addewid ar ran y Cleient i ddarparu cyflogeion, isgontractwyr neu gyflenwyr addas. Nid yw unrhyw gamau a gymer y Cleient i drefnu perthynas rhwng y Contractwr ac unigolion, busnesau neu asiantaethau lleol yn awgrymu ei fod yn ystyried bod yr unigolyn, y busnes neu'r asiantaeth yn addas i'r Contractiwr ei gyflogi.

*I sicrhau maes cystadlu gwastad i gynigyddion o unrhyw le yn Ewrop mae'n bwysig rhoi gwybod gyda'r tendr neu mewn sesiwn wybodaeth gysylltiedig sut y gall cynigydd gael at BBaChau o'r ardaloedd targed e.e. drwy GwerthwchiGymru, y darparwyr Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr lleol, ac unrhyw gofrestr BBaChau sydd ar gael yn yr ardal darged*

### Atodiad 5 Testun sy'n mynnu bod Cyfamod yn cael ei gynnwys mewn Cytundeb Datblygu

... Datblygu sy'n Gyfeillgar i BBaChau

Yn unol â'r polisïau a nodir yn ei Strategaeth [...] mae [...] yn ceisio sicrhau bod y datblygiad arfaethedig yn cyflenwi gwelliannau mesuradwy i les economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol y preswylwyr yn ardal y datblygiad a'r cylch, a ddiffinnir fel ardaloedd â chodau post sy'n dechrau [... i ...], hyd at ddarparu recriwtio a hyfforddiant wedi'u targedu a chyfleoedd BBaCh gan barchu cyfraith genedlaethol a chyfraith yr UE yn llawn. Bydd gofyn i bartneriaid a chyflogwyr y datblygiad gyfranogi yn hyn.

...1 Bydd ymhlith amodau contract fod y partner datblygu'n cytuno i Gyfamod Budd Economaidd – gweler Adendwm 1.

Mae gofyn i bartneriaid datblygu posibl:

...1.1 paratoi a chyflwyno gyda phob tendr dilys Ddatganiad Dull Effaith Economaidd gyda'u cynigion gan roi gwybod am y canlynol:

- camau a gymerir i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd cadwyn gyflenwi a ddarperir i BBaChau sy'n gweithio yn yr ardal darged heblaw cwmni sy'n rhan o'r un grŵp o gwmnïau â'r cwmni tendro
- targed uchelgeisiol ar gyfer y ganran o werth y contract cyfan a gaiff ei chyflenwi gan BBaChau yn yr ardal darged nad ydynt yn rhan o'r un grŵp â'r cwmni tendro;
- targed uchelgeisiol ar gyfer nifer yr wythnosau person o gyflogaeth ar y safle ar gyfer pobl a gyflogir yn uniongyrchol (h.y. pobl gyflogedig a hunangyflogedig nad ydynt yn cael eu darparu drwy'r gadwyn gyflenwi) ar y safle a chostau cyflog cyfartalog y bobl hyn yr wythnos.

...2 Darparu datganiad:

...2.1 eu bod yn llwyr gefnogi amcanion [...] mewn perthynas â thargedu buddion economaidd o'r datblygiad;

...2.2 os y'u penodir byddant yn cytuno i'r Cyfamod Budd Economaidd fel y'i nodir yn Adendwm 1 ac yn ei weithredu'n llwyr.

**Os methir darparu'r Datganiad hwn, gellid dehongli hyn fel amharodrwydd i gydymffurfio ag un o'r amodau sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r contract.**

...3 Anogir y datblygwr a'r contractwr i ddefnyddio'n llawn y gwasanaethau a'r adnoddau a ddarperir i gyflogwyr gan Adeiladu Cymru, Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr LlCC a'i ddarparwyr lleol, a GwerthwchiGymru, yn ogystal â'r Ganolfan Byd Gwaith, y Cyngor Dysgu a Sgiliau, Adeiladu Arbenigrwydd a Sgiliau Adeiladu a darparwyr hyfforddiant adeiladu eraill ac asiantaethau cyhoeddus perthnasol. Mae'r holl asiantaethau hyn yn ddarparwyr cyfle cyfartal a byddant yn cynnig eu gwasanaethau i ddatblygwyr a chyflogwyr o unrhyw un o Aelod-wladwriaethau'r UE.

*I sicrhau maes cystadlu gwastad i gynigyddion o unrhyw le yn Ewrop, mae'n bwysig rhoi gwybod gyda'r tendr, neu wybodaeth arall a anfonir at y darpar ddatblygwr neu mewn sesiwn wybodaeth gysylltiedig, sut y gall cynigydd gael at BBaChau o'r ardaloedd targed e.e. drwy GwerthwchiGymru, darparwyr y Gwasanaeth Datblygu Cyflenwyr lleol, ac unrhyw gofrestr BBaChau sydd ar gael yn yr ardal darged.*

**DYDDIEDIG** **20[ ]**

**[ ] [Cleient]**

A

**[ ] [Datblygwr]**

# CYTUNDEB UNIONGYRCHOL

**mewn perthynas â darparu budd economaidd lleol**

Anthony Collins Solicitors LLP
134 Edmund Street
Birmingham B3 2ES
DX 13055 Birmingham 1

Ffôn: 0121 212 7472
Ffacs: 0121 212 7434

Cyf: GEM 22717.00012

**MAE'R CYTUNDEB HWN DRWY WEITHRED** (y "Cytundeb" hwn) yn ddyddiedig y o fis 20[ ]

**RHWNG**

(1) [ ] o [ ] (y "Cleient" y mae'r ymadrodd hwn yn cynnwys ei olynyddion a ganiateir o ran teitl ac aseiniaid);

(2) [ ] (rhif cwmni [ ]) y mae ei swyddfa gofrestredig yn [ ] (y "Datblygwr" y mae'r ymadrodd hwn yn cynnwys ei olynyddion a ganiateir o ran teitl ac aseiniaid); ac

(y ddau ohonynt yn "Barti" a chyda'i gilydd y "Partïon")

**CEFNDIR**

(A) Drwy gontract dyddiedig [ ] (y "Contract") mae'r Cleient wedi penodi'r Datblygwr i gyflawni mewn perthynas â'r safleoedd a ddiffinnir ynddo fel y "[Safleoedd Prosiect]" y datblygiad a'r gwaith a ddiffinnir ynddo fel y "[Datblygiad]";

(B) Mae'r Partïon wedi cytuno i ofynion penodol mewn perthynas â budd economaidd lleol;

(C) O dan y Contract, mae'r Datblygwr yn gorfod dod i'r Cytundeb hwn.

**MAE'R WEITHRED HON YN ARDYSTIO**

**1. DIFFINIADAU A DEHONGLIAD**

1.1 Bydd gan y geiriau a'r ymadroddion canlynol yr ystyron canlynol, pa un a ddefnyddir hwy yn yr unigol neu'r lluosog ac ym mha bynnag genedl:

| | |
|---|---|
| **"Contract"** | yn golygu'r contract adeiladu neu waith dyddiedig [ ] rhwng y Datblygwr a'r Cleient; |
| **"Datganiad Dull Budd Economaidd Lleol"** | yn golygu'r datganiad dull a gyflwynir gan y Contractwr yn unol â chymal 3 o'r Cytundeb hwn a ymgorfforir yn Atodlen 2, sy'n nodi sut y bydd y Datblygwr yn cyflawni'r budd economaidd lleol; |
| **"Gofynion Budd Economaidd Lleol"** | yn golygu'r gofynion hynny a nodir yng nghymal 2 o'r Cytundeb hwn ac a ddisgrifir ymhellach yn y Datganiad Dull Budd Economaidd Lleol a ymgorfforir yn Atodlen 2 i'r Cytundeb hwn; |
| **"Ardal Effaith Leol"** | yn golygu ardal a nodir gan y Cleient o bryd i'w gilydd ac a ddiffinnir yn ôl pedwar digid cyntaf y cod post fel yr ardal darged ar gyfer recriwtio cyflogeion yn lleol i'r safle. I ddechrau, yr ardaloedd hyn fydd y rhai â chodau post yn dechrau [...], [...] (etc) (noder y codau dethol); |
| **"Cyflenwyr Newydd"** | **Sef:**<br>• mentrau â llai nag 20 o staff nad ydynt yn rhan o gwmni neu grŵp mwy a gyflogwyd yn flaenorol gan y Datblygwr na'i isgontractwyr na'i gyflenwyr mewn perthynas â'r Datblygiad; neu<br>• fentrau cymdeithasol neu gwmnïau cymdeithasol nad ydynt wedi'u cyflogi'n flaenorol gan y Datblygwr na'i isgontractwyr na'i gyflenwyr mewn perthynas â'r Datblygiad; |

| | |
|---|---|
| **"Datganiad Perfformiad ac Adroddiad Budd Economaidd Lleol Prosiect"** | yn golygu'r adroddiad a'r datganiad perfformiad y cyfeirir atynt yng nghymal 2 o'r Cytundeb hwn y nodir profforma ar eu cyfer yn Atodlen 1; |
| **"Safle Prosiect"** | yn golygu safle sy'n destun y Contract lle bydd yr adeiladu a'r gwaith cysylltiedig yn digwydd; |
| **"Dyddiad Penodedig"** | yn golygu wythnos cyn gweithredu pob prosiect neu atodlen o ddyddiadau fel y cytunwyd arnynt o dan gymal 4.2; |
| **"Busnesau Targed"** | sef busnesau â chod post [... i ...] sydd ar restr o BBaChau a gynhelir gan [GwerthwchiGymru]; |
| **"Ardal Effaith Ehangach"** | sy'n golygu ardal a nodir gan y Cleient o bryd i'w gilydd ac a ddiffinnir yn ôl pedwar digid cyntaf y cod post fel yr ardal darged i nodi busnesau a fydd yn elwa ar is-gontractau a chontractau cyflenwi i'r safle. I ddechrau, bydd y rhain yn ardaloedd â chodau post sy'n dechrau [...], [...] (etc) (noder y codau dethol); |
| **"Diwrnod Gwaith"** | yn golygu unrhyw ddiwrnod heblaw dydd Sadwrn, dydd Sul, a gwyliau banc neu wyliau cyhoeddus. |

1.2 Yn y Cytundeb hwn bydd gan ymadroddion yr un ystyron ag yn y Contract oni nodir fel arall yng nghymal 1.1. neu oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall;

1.3 Yn y Cytundeb hwn (oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall):

1.3.1 mae cyfeiriadau at gymalau ac is-gymalau'n cyfeirio at gymalau ac is-gymalau yn y Cytundeb hwn;

1.3.2 ni fydd y penawdau'n effeithio ar ei ddehongli;

1.3.3 bydd y gwrywaidd yn cynnwys y benywaidd a'r diryw a bydd yr unigol yn cynnwys y lluosog ac i'r gwrthwyneb;

1.3.4 mae cyfeiriadau at ddeddfwriaeth, rheoliadau, penderfyniadau a chyfarwyddiadau'n cynnwys pob gwelliant, amnewidiad neu ailddeddfiad a phob rheoliad, penderfyniad, cyfarwyddyd a chanllaw statudol a wneir neu a roir oddi tanynt; ac

1.3.5 mae "caniatâd" neu "gymeradwyaeth" yn golygu caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan y Parti sy'n caniatáu neu'n cymeradwyo.

## 2. GOFYNION BUDD ECONOMAIDD LLEOL

Mae'r Datblygwr yn cyfamodi y bydd:

2.1 yn caffael bod [10%] o werth y contract yn cael ei gyflenwi gan Gyflenwyr Newydd sy'n gweithio mewn ardaloedd â chod post [... i ...];

2.2 yn gweithio gyda'r Rhaglen Datblygu Cyflenwyr [cyswllt...] neu sefydliad arall addas y cytunwyd arno gan y Cleient i ddatblygu rhaglen o weithgareddau a chymorth er mwyn rhoi gwybod cymaint â phosibl am gyfleoedd is-gontractio a chyflenwi i BBaChau â chod post [... i ...] a sicrhau bod cynigion mor niferus a chystadleuol â phosibl mewn ymateb i'r cyfleoedd hyn gan y BBaChau hyn;

2.3 ymhen pedair wythnos o ddyddiad y Cytundeb hwn, adrodd am y camau a gymerwyd i roi gwybodaeth a chyfleoedd contractio i BBaChau â chod post [... i ...], gan gynnwys rhestr yn nodi gwybodaeth ffôn a / neu e-bost BBaChau o'r ardal darged a fu'n cymryd rhan yn y gweithgareddau yng nghymal 2.1 uchod;

2.4 i bob is-gontract neu gontract cyflenwi, sicrhau bod o leiaf [2] o Fusnesau Targed yn cael eu gwahodd i gyflwyno pris neu dendr (os oes Busnesau Targed addas ar gael) a bod y Busnesau Targed hyn yn cael cyfle cyfartal i gystadlu am y contract.

2.5 wythnos cyn pob [cyfarfod adolygu contract misol] darparu i'r Cleient adroddiad sy'n nodi:

2.5.1 niferoedd y BBaChau â chod post [... i ...] a wahoddwyd i dendro / rhoi pris am waith cyflenwi ac isgontractio, nifer y rhain y dyfarnwyd contract iddynt a gwerth cyfan y contractau hyn. Dylid adrodd am hyn ar gyfer y cyfnod diweddaraf a'r contract hyd yma;

2.5.2 darparu rhestr o'r enwau a'r manylion cyswllt ar gyfer Cyflenwyr Newydd a nodir o dan 2.1 uchod yn y cyfnod a'r contract hyd yma, a gwerth y gwaith a ddyfarnwyd i bob un [neu'r gwerth cyfanredol a ddyfarnwyd].

2.5.3 rhestr o'r Busnesau Targed a nodwyd o dan 2.4 uchod yn y cyfnod a'r contract hyd yma, gan ddangos a benodwyd y Busnes Targed ai peidio, ac os na chafodd ei benodi, y ganran mae ei dendr / pris yn ei chynrychioli o'r pris a gyflwynwyd gan yr is-gontractwr neu'r cyflenwr a benodwyd;

2.5.4 dull i gyfrifo'r gwerth a ychwanegwyd at ardal cyflenwi'r contract yn sgil defnyddio cadwyni cyflenwi ac yn sgil y prif gontractwr yn cyflogi pobl sy'n byw'n bennaf yn yr ardal hon, a chyfanswm y gwerth ychwanegol.

2.6 Ymhen 4 wythnos o gwblhau pob cyfnod 13 wythnos yn dilyn gweithredu pob Prosiect, bydd y Datblygwr yn darparu Datganiad Perfformiad ac Adroddiad Budd Economaidd Lleol Prosiect i'r Cleient, sy'n nodi mewn perthynas â'r cyfnod a'r contract hyd yma:

2.6.1 camau i'w cymryd i unioni unrhyw ddiffyg rhwng y rhwymedigaeth a nodwyd yng nghymal 2.1 uchod a'r cyflawniadau a ddisgrifir yn y Datganiad Perfformiad ac Adroddiad Budd Economaidd Lleol chwarterol;

2.6.2 enwau cwmnïau sy'n gweithio yn yr Ardal Effaith Ehangach sydd wedi cyflenwi gwaith is-gontract neu gyflenwadau yn y cyfnod a hyd yma, a gwerth cyfanredol y trafodion hyn;

2.6.3 pa gamau a gymerir i gynnwys cwmnïau sy'n gweithio yn yr Ardal Effaith Ehangach yn fwy wrth ddarparu is-gontractau a chyflenwadau.

2.7 Adroddiadau Monitro

2.7.1 Pan fydd y Cleient yn gofyn, bydd y Datblygwr yn hwyluso gwaith ymchwil i ganfod yr effaith lluosydd lleol (LM3) a / neu enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad yn gysylltiedig â buddsoddiad y Cleient, gan gynnwys hwyluso ymchwil gyda chyflogeion a'r gadwyn gyflenwi i'r Contract.

2.8 Pan fydd y Cleient yn gofyn, bydd y Datblygwr yn cyfranogi mewn mentrau ychwanegol i nodi a meithrin sefydliadau cadwyn gyflenwi ychwanegol sy'n gweithio yn yr ardal lle mae'r datblygiad yn digwydd, neu o'i hamgylch.

## 3. DATGANIAD DULL BUDD ECONOMAIDD LLEOL

Wyth wythnos cyn dechrau gwaith ar Safle Prosiect, bydd y Datblygwr yn cyflwyno Datganiad Dull Budd Economaidd Lleol ar Safle'r Prosiect i'r Cleient gan ddefnyddio'r pro fforma yn Atodlen 2, gan nodi sut y cyflenwir y gofynion yng nghymal [.....] uchod heb gost i'r Cleient. Mae'n rhaid i'r Datganiad Dull Budd Economaidd Lleol roi gwybod sut y caiff Cyflenwyr Newydd eu meithrin a'u cefnogi drwy'r gwaith ar faterion fel iechyd a diogelwch, prisio, rheoli a rheoli ariannol, dogfennaeth ac achredu.

## 4. CYDYMFFURFIAD ISGONTRACTWYR A CHYFLENWYR

Bydd y Contractwr yn datblygu dull gwaith a fydd yn cyflenwi'r Gofynion Budd Economaidd Lleol a data monitro a gwirio perthnasol, ac yn cael cydweithrediad llawn yr isgontractwyr a'r cyflenwyr wrth gyflenwi'r gofynion hyn.

## 5. CYMORTH

Nid yw cynnwys Gofynion Budd Economaidd Lleol yn cynnwys nac yn awgrymu unrhyw addewid ar ran y Cleient i ddarparu cyflogeion, isgontractwyr neu gyflenwyr addas. Ni fydd unrhyw gamau a gymer y Cleient i drefnu perthynas rhwng y Datblygwr ac unigolion, busnesau neu asiantaethau lleol yn awgrymu ei fod yn ystyried bod yr unigolyn, y busnes neu'r asiantaeth yn addas i'r Contractwr ei gyflogi. Mae'r holl gyfrifoldebau recriwtio, goruchwylio a disgyblu yn perthyn i'r Datblygwr a'r isgontractwyr. Yn y cyd-destun hwn, bydd y Cleient yn gweithio gydag asiantaethau lleol i helpu i hwyluso cyflawni'r Gofynion Budd Economaidd Lleol.

## 6. ATEBOLRWYDD PARTNERIAID

Os partneriaeth yw'r Datblygwr, ystyrir bod cyfeiriadau yn y Cytundeb hwn at "y Datblygwr" yn cynnwys cyfeiriad at bob un partner o'r bartneriaeth hon yn y presennol a'r dyfodol ac ystyrir bod atebolrwydd pob un partner felly o dan y Cytundeb hwn yn atebolrwydd ar y cyd ac amryw.

## 7. HYSBYSIADAU

Bydd unrhyw hysbysiad i'w gyflwyno gan Barti o dan y Cytundeb hwn wedi'i gyflwyno'n ddigonol os caiff ei anfon â llaw, neu drwy'r post i'r swyddfa gofrestredig a nodir uchod neu, os nad oes swyddfa, cyfeiriad hysbys diwethaf y Parti i'w hysbysu. Ystyrir bod unrhyw hysbysiad a anfonir â llaw yn cael ei gyflwyno ar y diwrnod dosbarthu ond os anfonir unrhyw hysbysiad â llaw ar ôl 4.45pm ar unrhyw ddiwrnod ystyrir ei fod wedi'i gyflwyno ar y diwrnod gwaith nesaf. Ystyrir bod unrhyw hysbysiad a anfonwyd drwy'r post wedi'i gyflwyno yn ei bryd pan fydd 48 awr wedi mynd heibio ers ei bostio, os yw diwedd y cyfnod hwnnw'n digwydd cyn 4.45pm ar ddiwrnod gwaith ac fel arall ar y diwrnod gwaith nesaf.

## 8. TROSGLWYDDO

8.1 Ceir trosglwyddo budd a hawliau'r Cleient o dan y Cytundeb hwn heb ganiatâd y Datblygwr ar un achlysur yn unig i unrhyw un sy'n caffael y cyfan neu ran sylweddol o fudd y Cleient yn y prosiect a bydd y Cleient yn rhoi gwybod i'r Datblygwr ymhen 10 diwrnod gwaith am unrhyw drosglwyddiad felly gan nodi enw a chyfeiriad yr aseinî a dyddiad y trosglwyddo. Ni cheir trosglwyddo budd y Cytundeb hwn ymhellach heb ganiatâd y Datblygwr (ni cheir atal nac oedi'r fath ganiatâd yn afresymol);

8.2 Ni fydd y Datblygwr yn mynnu bod unrhyw aseinî felly'n cael ei atal rhag adennill unrhyw golled o ganlyniad i dorri'r Cytundeb hwn mewn unrhyw fodd (ni waeth sut y'i torrir) drwy reswm dim ond bod y sawl yn aseinî ac nid y Cleient gwreiddiol drwy hyn na thrwy reswm bod y Cleient gwreiddiol neu unrhyw Gleient canol wedi dianc rhag unrhyw golled o ganlyniad i achos felly o dorri'r cytundeb drwy reswm gwaredu unrhyw fudd yn y Safle neu nad yw'r Cleient gwreiddiol neu unrhyw Gleient canol wedi dioddef unrhyw golled neu gymaint o golled ar yr amod y bydd atebolrwydd y Contractwr i'r fath aseinî yr un fath ond nid yn fwy na'r atebolrwydd y buasai gan y Contractwr i'r Cleient gwreiddiol pe na fyddai'r trosglwyddo wedi digwydd;

8.3 I osgoi amheuaeth, os yw'r Datblygwr yn Ddatblygwr dirprwyol a benodwyd yn lle'r Datblygwr gwreiddiol, ni fydd yn atebol o dan y Cytundeb hwn heblaw mewn perthynas â'r rhan honno o'r gwasanaeth a'r gwaith y'i penodwyd yn Ddatblygwr dirprwyol ar eu cyfer.

## 9. AROLYGU DOGFENNAU

Ni fydd atebolrwydd y Datblygwr o dan y Cytundeb hwn yn cael ei leihau na'i ddileu mewn unrhyw fodd drwy reswm unrhyw arolygu neu gymeradwyo'r dogfennau neu bresenoldeb mewn cyfarfodydd safle nac ymholiad nac arolygiad arall y caiff y Cleient ei wneud neu ei gaffael i'w wneud er budd iddo neu ar ei ran.

**10. CYFRAITH AC AWDURDODAETH BERTHNASOL**

Caiff y Cytundeb hwn ei lywodraethu gan gyfraith Cymru a Lloegr a'i ddehongli'n unol â hi, ac ar bob cyfrif bydd yn destun awdurdodaeth gyfyngedig llysoedd Cymru a Lloegr.

**11. HAWLIAU TRYDYDD PARTI**

Mae'r Cytundeb hwn yn orfodadwy gan y partïon gwreiddiol iddo a chan eu holynyddion o ran teitl ac aseiniaid a ganiateir. Gwaherddir unrhyw hawliau gan unrhyw un i orfodi telerau'r Cytundeb yn unol â Deddf Cytundebau Prosiect (Hawliau Trydydd Parti) 1999.

*FEL TYSTIOLAETH* o hyn, cyflawnir y Cytundeb hwn fel Gweithred ac fe'i cyflenwir ar y dyddiad a nodwyd gyntaf uchod.

Cafodd SÊL GYFFREDIN )

[ ***] [Cleient]*** )

Ei gosod ar hwn ym mhresenoldeb: )

Llofnodwr Awdurdodedig

Llofnodwr Awdurdodedig

**Cafodd SÊL GYFFREDIN** )

[ ***] [Datblygwr]*** )

Ei gosod ar hwn ym mhresenoldeb: )

Llofnodwr Awdurdodedig

Llofnodwr Awdurdodedig

Dylid ychwanegu'r atodlenni canlynol at y Cytundeb hwn:

- Atodlen 1 – Datganiad Perfformiad ac Adroddiad Budd Economaidd Lleol Prosiect
- Atodlen 2 – Datganiad Dull Budd Economaidd Lleol